# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 5

DIOGELU DYSGWYR, GWEITHDREFNAU CWYNO AC YMGYSYLLTU Â DYSGWYR

### 126 Cynlluniau diogelu dysgwyr

(1) Caiff y Comisiwn roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol perthnasol sy'n gofyn iddo gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i'r Comisiwn ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad neu cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Mae cynllun diogelu dysgwyr yn ddogfen sy'n nodi trefniadau'r darparwr addysg drydyddol perthnasol ar gyfer—

- (a) diogelu buddiannau personau sy'n ymgymryd â chwrs perthnasol os bydd y cwrs yn peidio â chael ei ddarparu am unrhyw reswm, a
- (b) cefnogi person sy'n ymgymryd â chwrs perthnasol ac sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs addysg drydyddol arall (pa un a yw'r cwrs hwnnw yn cael ei ddarparu gan, neu ar ran, y darparwr addysg drydyddol neu berson arall).

(3) Caiff y Comisiwn gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr gydag addasiadau neu hebddynt.

(4) Os yw darparwr addysg drydyddol perthnasol yn dymuno diwygio ei gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy, rhaid iddo anfon cynllun diwygiedig i'r Comisiwn.

(5) Caiff y Comisiwn gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr diwygiedig gydag addasiadau neu hebddynt.

(6) Rhaid i'r Comisiwn ddyroddi canllawiau ar lunio a diwygio cynlluniau diogelu dysgwyr.

(7) Cyn dyroddi canllawiau o dan is-adran (6), rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(8) Rhaid i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr.

(9) Rhaid i'r Comisiwn gynnwys yn ei adroddiad blynyddol (a lunnir o dan baragraff 16 o Atodlen 1) y casgliadau y mae'n dod iddynt o'r monitro hwnnw o ran effeithiolrwydd y cynlluniau diogelu dysgwyr yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(10) Yn yr adran hon ac yn adran 127—

"cwrs perthnasol" ("*relevant course*"), mewn perthynas â darparwr addysg drydyddol perthnasol, yw—

(a) pan fo'r darparwr yn ddarparwr cofrestredig, unrhyw gwrs addysg drydyddol a ddarperir ganddo neu ar ei ran;

(b) pan na fo'r darparwr yn ddarparwr cofrestredig, gwrs addysg drydyddol a ddarperir ganddo neu ar ei ran ac a gyllidir gan y Comisiwn o dan—

(i) adran 89(3)(a) (cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau),

(ii) adran 97(1)(a) (addysg bellach neu hyfforddiant), neu

(iii) adran 104(1)(a) (prentisiaethau);

"darparwr addysg drydyddol perthnasol" ("*relevant tertiary education provider*") yw—

(a) darparwr cofrestredig;

(b) person ac eithrio darparwr cofrestredig sy'n cael adnoddau ariannol a ddarperir neu a sicrheir gan y Comisiwn o dan—

(i) adran 89(3)(a) (cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau),

(ii) adran 97(1)(a) (addysg bellach neu hyfforddiant), neu

(iii) adran 104(1)(a) (prentisiaethau).